

CYNLLUN HYFFORDDIANT CYNGOR TREF PORTHMADOG

O dan Adran 67 deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) mae gan y Cyngor Tref ddyletswydd i ystyried hyfforddiant ar gyfer cynghorwyr a staff ac i gyhoeddi'r cynlluniau hyfforddiant yma.

Pwrpas y cynllun hyfforddi yw sicrhau bod Cynghorwyr a'r Clerc gyda'i gilydd yn meddu ar y wybodaeth a'r ymwybyddiaeth sydd eu hangen er mwyn i'r Cyngor weithredu'n effeithiol. Nid oes angen i bob Cynghorydd a Chlerc fod wedi derbyn yr un hyfforddiant a datblygu'r un arbenigedd.

Y meysydd craidd i fynd i'r afael â nhw er mwyn sicrhau bod gan y Cyngor sgiliau a dealltwriaeth ddigonol yw:

- Modiwl ar gyfer Cynghorwyr newydd;
- Y Cod Ymddygiad ar gyfer aelodau awdurdodau lleol yng Nghymru;
- Rheolaeth ariannol a llywodraethu.

Bydd pob Cynghorydd yn cael cynnig y cyfle i fynychu cyfleoedd hyfforddi a datblygu perthnasol. Mae Un Llais Cymru yn darparu gwybodaeth yn fisol o'i gyrsiau, ac mae'r rhain yn cael eu dosbarthu i bob aelod o'r Cyngor Tref. Mae cyrsiau yn cael eu cynnig ar lein ac ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae pob Cynghorydd newydd yn cael y fersiwn diweddaraf o'r 'Canllaw Cynghorydd Da' a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru a dylent ymgyfarwyddo â'i gynnwys. Mae pob Cynghorydd newydd hefyd yn cael cyfarfod anwytho gyda'r Clerc er mwyn dod i ddeall am weithdrefnau a threfn y Cyngor Tref. Yn ogystal, bydd y Clerc yn cael y cyfle i fynychu cyrsiau a gynigir gan Gymdeithas y Clercod (SLCC) a bydd aelodaeth y Clerc o'r SLCC yn cael ei dalu gan y Cyngor Tref.

Bydd y Cyngor Tref yn neilltuo cyllid yn flynyddol i sicrhau bod Cynghorwyr a'r Clerc yn medru mynychu cyrsiau hyfforddiant, cynadleddau a digwyddiadau'r sector.

Bydd y Clerc yn gyfrifol am:-

- gylchredeg unrhyw wybodaeth am gyrsiau addas ac yn awgrymu cyrsiau perthnasol i aelodau'r Cyngor
- gadw cofnod o'r cyrsiau a fynychwyd yn flynyddol

Cynllun:

- Cynghorwyr newydd – i fynychu 2 fodiwl Cynghorwyr newydd Un Llais Cymru o fewn blwyddyn i'w hethol
- Anogaeth i bob Cynghorydd i fynychu cyrsiau priodol Un Llais Cymru
- Cadeirydd ac Is-gadeirydd newydd y Cyngor– modiwl Sgiliau Cadeirio Un Llais Cymru – o fewn blwyddyn i'w hethol
- Cadeirydd ac Is-gadeirydd newydd Is-Bwyllgor Cyllid - Modiwl Cyllid Llywodraeth Leol Un Llais Cymru - o fewn blwyddyn i'w hethol
- Clerc - Hyfforddiant Parhaus Proffesiynol - mynychu cynadleddau, seminarau, cyrsiau hyfforddiant, digwyddiadau'r sector - pob blwyddyn yn ôl y galw.

Mabwysiadwyd a chymeradwywyd gan y Cyngor Tref Mai 9 2023.

Arwyddwyd: Aled Griffith

Cadeirydd 2023-2024

Dyddiad : Mai 9 2023